Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's
Cymru

# Gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc

13/05/20

## Cyflwyniad

Mae'r argyfwng iechyd a chyfnod y cyfyngiadau symud, yn anochel, wedi rhoi straen a sialensiau ychwanegol ar blant a phobl ifanc. Mae'r cyfuniad o'r pandemig a'r newidiadau sydyn, anodd yn amgylchiadau economaidd teuluoedd wedi bod yn frawychus a bygythiol. Rydyn ni wedi bod yr un mor bryderus ag eraill am ddiogelwch plant yr ydyn ni'n awr yn eu gweld ar-lein, neu ar sgrin ffôn. Rydyn ni wedi poeni am y rheini nad ydym yn clywed amdanynt ond y mae perygl neu risg wirioneddol iddynt.

Mae Barnardo's, fel llawer o sefydliadau eraill, wedi addasu'r cymorth a'r ymyraethau mae eu gwasanaeth yn eu cynnig er mwyn gallu eu darparu ar-lein neu dros y ffôn yn ystod argyfwng Covid-19. Rydyn ni'n ymwybodol mai ateb dros dro yw llawer o'r gwaith addasu hwn nes gallwn ailddechrau gweithio wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, rydyn ni hefyd yn effro i'r ffaith bod gwersi i'w dysgu yn sgil yr argyfwng hwn, er mwyn diogelu ein gwaith i'r dyfodol â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn yr hirdymor.

Mae rhai plant a phobl ifanc wedi cael seibiant oddi wrth ffactorau sy'n effeithio'n negyddol ar eu llesiant. Mae problemau fel bwlio, amgylcheddau cymdeithasol sy'n achosi gorbryder i blant awtistig, a phwysau negyddol oddi wrth gyfoedion a bygwth yn y gymuned i rai sy'n agored i gamfanteisio troseddol wedi diflannu. Cafwyd gwahanol gyfleoedd i ymgysylltu â grwpiau ar-lein ac addysg ar-lein, pethau a fyddai wedi bod yn anodd cyrraedd atynt, neu'n anodd eu rheoli ar eu ffurf ffisegol. Mae rhieni a gofalwyr, a oedd yn arfer bod yn brysur neu'n gweithio oriau hir, wedi bod ar gael ar gyfer eu plant. Mae Barnardo's wedi sefydlu Rhaglen Arloesi â ffocws arbennig sydd â phedwar llif gwaith prosiectau i harneisio'r hyn a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol.

## Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc:

1. ***Mae plant wedi colli mynediad i rwydweithiau cymdeithasol cefnogol, ac mae hynny wedi tanseilio eu hymdeimlad o lesiant ac wedi ychwanegu at rai pryderon iechyd meddwl ac emosiynol a oedd yn bodoli eisoes.*** Mae pobl ifanc hŷn wedi bod yn agored dros ben i unigrwydd, yn enwedig rhai sy'n gadael gofal a rhai nad ydynt yn byw â'u teulu. Mae bod gartref â'r teulu, yn enwedig lle bu anawsterau ers tro mewn perthnasoedd, wedi creu tensiynau ac wedi arwain at gynnydd mewn digartrefedd ymysg pobl

ifanc. Mae ein Gwasanaeth ar gyfer Episod Cyntaf o Seicosis (FEPS) ac ein Gwasanaeth Golau ar Ynys Môn yn rhoi sylw i wytnwch emosiynol pobl ifanc drwy ymyraethau sy'n cynnwys cymdeithasu, cyfeillgarwch a chyswllt ystyrlon ag eraill. Mae'n amlwg yn anodd cael mynediad i'r ymyraethau hyn ar hyn o bryd, felly mae'r ddau wasanaeth hwn wedi addasu arlwy eu gwasanaeth fel eu bod yn gallu rhoi'r cymorth gorau posibl drwy ymestyn allan at unigolion a theuluoedd.

2. ***O safbwynt Covid-19*** – Mae plant yn bryderus am ddiogelwch aelodau'r teulu ac mae teuluoedd yn bryderus am fynd allan, am fynd i siopa ac am ddefnyddio gwasanaethau lleol megis y meddyg teulu. ***Diogelwch economaidd*** – Mae teuluoedd sydd dan bwysau economaidd oherwydd yr argyfwng iechyd wedi wynebu lefelau tensiwn a straen cynyddol ac felly wedi gorfod gweld llawer o ffraeo, hyrddiau o emosiynau dwys a rhieni'n camddefnyddio alcohol.

3. Os gwelwyd mai yn yr agweddau cymdeithasol neu academaidd ar fywyd yr ysgol y mae tarddiad problemau iechyd meddwl plentyn, mae'r plant hyn wedi cael seibiant ac mae hynny wedi gwneud lles i'w hiechyd meddwl yn y tymor byr. Rydym yn rhagweld y bydd y plant hyn yn ei chael yn anodd dros ben dychwelyd i'r ysgol ac y bydd gofyn rhoi cymorth ychwanegol iddynt a chynllunio ar eu cyfer yn ofalus i hwyluso pethau iddynt.

4. Mewn rhai teuluoedd, lle'r arferai'r rhieni weithio oriau hir ac maen nhw'n awr ar ffyrlo, neu ddim yn gweithio, maent wedi cael cyfle i dreulio amser â'i gilydd a'r cyfle i gryfhau eu perthnasoedd â'u plant.

**Plant bregus a dan anfantais:**

1. Mae ***effaith economaidd*** yr argyfwng wedi peri llawer iawn o bryder wrth i deuluoedd golli eu gwaith a gorfod hawlio Credyd Cynhwysol. Mae byw â'r pryder a'r ofn hwn a'r bygythiadau gwirioneddol i ddiogelwch y tŷ a'r cartref yn cael effaith uniongyrchol ar blant.

2. Mewn gwasanaethau lle'r ydym yn cynorthwyo teuluoedd sydd â ***phlant ag anghenion addysgol arbennig***, rydym wedi gweld llawer o broblemau. Mae plant a phobl ifanc ar y sbectrwm awtistig, neu sydd ag anawsterau dysgu, wedi ei chael anodd delio â'r newid yn eu trefn bob dydd oherwydd bod eu hysgol wedi cau a bod eu haddysg a'u gofal wedi cael ei symud i hybiau ysgol. Mae llawer wedi'i chael yn anodd deall beth sy'n digwydd a'r hyn mae'n ei olygu iddyn nhw a'u teuluoedd. Bu'n anodd iawn i deuluoedd sy'n gofalu am y plant a'r bobl ifanc hyn eu cael gartref yn ystod y cyfyngiadau symud heb ddim trefn ddyddiol a heb y seibiant byr a gânt drwy wasanaethau cymorth a'r ysgol. Mae plant a theuluoedd yn methu'r oriau o 'seibiant' wythnosol pan fo plant yn cael defnyddio grwpiau cymorth a chymorth unigol drwy'r gwasanaeth. Mae rhai

plant a phobl ifanc, a gafodd drafferth ymgysylltu â grwpiau a dysgu 'byw', wedi ei chael yn haws cael mynediad iddynt drwy ddulliau ar-lein.

3. Mae ein gwasanaethau yn ***gweithio â phartneriaid aml-asiantaeth*** mewn ardaloedd i gefnogi'r teuluoedd hyn. Mae rhai Hybiau Cymorth Cynnar wedi addasu i roi sylw i anghenion bwyd brys, gan ddanfon prydau ysgol i gartrefi ayb. Mae ein gwasanaethau wedi cynorthwyo teuluoedd i ddefnyddio banciau bwyd a chael prydau ysgol fel rhan o'r cydweithio hwn. Mewn meysydd lle mae ein gwasanaethau wedi colli'r grwpiau proffesiynol sydd fel arfer yn gwneud atgyfeiriadau, mae rheolwyr gwasanaethau wedi ymestyn allan at weithwyr proffesiynol allweddol a gofyn iddynt ail-ddylunio'r trywyddion atgyfeirio a/neu wedi tynnu sylw teuluoedd yn uniongyrchol at ein gwasanaethau er mwyn iddynt allu cyfeirio eu hunain.

4. Mae'r pandemig wedi amlygu'r teuluoedd bregus nad oes ganddynt ***fynediad i dechnoleg ddigidol*** y tu hwnt i ffôn sylfaenol. Bu Barnardo's Cymru yn defnyddio cronfeydd gwirfoddol i ddarparu technoleg megis ffonau clyfar er mwyn i deuluoedd allu cadw mewn cysylltiad, talu eu biliau a delio â'r agweddau ymarferol ar eu hamgylchiadau newydd. Mae Gwasanaethau hefyd wedi bod yn helpu teuluoedd i gael gafael ar offer ar gyfer eu plant gan ysgolion ac yn helpu teuluoedd i sefydlu cysylltiad â'r rhyngrwyd ac i brynu deunydd ysgrifennu a darparu mynediad i beiriannau argraffu.

5. Mae ***rhieni sengl*** bregus a theuluoedd lle rhennir y cyfrifoldeb rhiant wedi wynebu pwysau a heriau newydd. Mae rhieni sengl yn fwy dibynnol ar deulu estynedig, ffrindiau a gwasanaethau i gael cymorth i fagu eu plant.

6. Mae amrywiol faterion wedi effeithio ar ***ofalwyr ifanc***, yn amrywio o addasu i ddirywiad yn iechyd aelodau'r teulu, sialensiau economaidd yn sgil colli incwm rhiant ac allgau digidol gan herio eu gallu i gysylltu â'u dysgu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae gofalwyr ifanc wedi cael seibiant dros dro oddi wrth eu holl dasgau domestig a gofalu am anwylyn gartref, a chyfuno hyn â'u gwaith ysgol.

**Gofal cymdeithasol a diogelu:**

1. Mae ein gwasanaethau yn gweld gostyngiad cyffredinol yn nifer yr atgyfeiriadau, ac mae hyn yn peri cryn bryder o safbwynt diogelu, yn rhannol oherwydd bod ysgolion wedi cau ac oherwydd nad yw'r rhwydwaith proffesiynol arferol bellach o amgylch y plentyn neu'r person ifanc. Bu cynnydd mewn rhai o'n gwasanaethau cefnogi teuluoedd.
2. Mae cyflenwi gwasanaethau drwy ***gysylltiadau ar-lein ac ar y teleffon wedi peryglu'r gallu i ddiogelu'n gadarn.*** Hyd yn oed pan welir neu pan siaradir â phlant ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr, mae'n anoddach barnu sut ofal maent yn ei gael ac ansawdd y berthynas â'r rhiant. Mae gwasanaethau wedi

ceisio creu cyfleoedd i gael sgyrsiau preifat â phlant a phobl ifanc yng nghyd-destun y cyfyngiadau symud.

3. Mae rhai defnyddwyr y ***gwasanaethau cwnsela ysgolion, a gwasanaethau cwnsela Teuluoedd yn Gyntaf***, wedi bod yn hapus i ddal i ddefnyddio'r cymorth ar-lein neu ar y ffôn. Fodd bynnag, ni fydd y rheini sydd yn awr gartref bob amser yn cael preifatrwydd i'r un graddau ag a gaent yn yr ysgol. At hynny, gan fod gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn wasanaeth cyfrinachol, lle caiff plant hŷn gymorth heb fod angen iddynt gael caniatâd eu rhieni, yna mae'r cyfle hwn i adrodd am faterion diogelu wedi cael ei golli.

4. Rydyn ni'n bryderus am ***y lefelau cynyddol o drais domestig*** a chroesawn ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre'. ***Gwyddom y bydd plant yn gweld camdriniaeth yn digwydd ar yr aelwydydd hyn*** a chaiff ymwybyddiaeth o hyn ei hyrwyddo drwy ymgyrch Childline yr NSPCC. Yn ddiweddar, cawsom gyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i gynnal ein dull teuluol o roi sylw i gam-drin domestig mewn pedwar awdurdod lleol yng Ngwent, yn ogystal â Chasnewydd. Disgwyliwn weld cynnydd mewn atgyfeiriadau i'r gwasanaethau hyn yn y tymor hwy – er bod atgyfeiriadau yn dal i fod yn isel ar hyn o bryd.

***5.*** Nod hybiau ysgolion oedd ei gwneud yn haws i roi cymorth i'r disgyblion mwyaf bregus ac mae'n amlwg y bu pryder bod y presenoldeb wedi bod yn isel. Mae teuluoedd yn awyddus i gadw eu plant a nhw'u hunain yn ddiogel rhag y firws. ***O safbwynt diogelu, mae'n bwysig inni gael plant yn ôl i'r ysgolion,*** ond mae'n amlwg bod cydbwysedd cymhleth o ystyriaethau iechyd i roi sylw iddynt ochr yn ochr â'r ystyriaeth bwysig hon. Rydyn ni'n bryderus y gallai rhai teuluoedd ddefnyddio Covid-19 i gadw gwasanaethau a gweithwyr cymdeithasol draw o'r drws.

6. Mae pobl ifanc a oedd yn defnyddio ein gwasanaeth Divert yng Nghasnewydd, gwasanaeth sy'n cefnogi rhai sydd mewn perygl o gael eu dwyn i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, wedi cael y cyfle i aros y tu mewn gyda'u teulu. Mae rhai wedi ail-gydio yn eu haddysg. Mae'n ymddangos y bu'r cyfyngiadau symud yn ffafriol i ddiogelwch y garfan hon. Nid yw'n glir a ellir cynnal rhywfaint o'r cynnydd hwn wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

7. Rydym yn bryderus bod plant a phobl ifanc yn dod fwyfwy i gysylltiad â chamdriniaeth bosibl ar-lein.

**Pwyntiau allweddol:**

Wrth inni symud ymlaen o'r cyfnod hwn, rhagwelwn y bydd yr effaith emosiynol a'r effaith ar iechyd meddwl ymysg plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn

Rhifau Cofrestru'r Elusen 216250 a SC037605
Barnardo's Registered Charity Nos. 216250 and SC037605

sylweddol. Mewn arolwg diweddar o bron 1,000 o ymarferwyr Barnardo's UK ar effaith Covid-19, dywedodd 69% eu bod yn cefnogi rhywun sy'n wynebu cynnydd yn eu pryderon iechyd meddwl oherwydd Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys gorbryder, straen, problemau cysgu, iselder, llai o hunan-hyder, ymddygiad OCD, paranoia a hunan-niweidio.

Dylai'r Llywodraeth feddwl ymlaen am y ffordd orau o sicrhau bod ymatebion cyfannol, hyblyg yn cael eu rhoi ar waith i roi sylw i'r angen hon, sy'n debygol o syrthio y tu allan i gylch gwaith gwasanaethau CAMH a lefel y ddarpariaeth y gellir ei darparu mewn ysgolion. Credwn y bydd angen, i'r dyfodol, rhoi ffocws mwy pendant ar gydnabod gwerth dulliau systemig sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau teuluoedd, yn faterol ac o ran perthnasoedd, a'u heffaith ar lesiant plant.

Mae rhai sy'n fregus oherwydd tlodi a'i ansicrwydd cysylltiedig, plant ag anableddau a rhai sydd â phryderon ymddygiad ac emosiynol, yn fwy tebygol o fod wedi syrthio'n ôl o ran eu datblygiad a'u haddysg ers yr argyfwng.  Bydd yr argyfwng wedi cael effaith anghymesur ar eu canlyniadau nhw i'r dyfodol. Sut caiff y garfan hon ei chefnogi i'r dyfodol, nid yn unig yn y cyfnod 'dychwelyd' cyntaf ond yn yr hirdymor? Mae gennym gyfle i ail-feddwl sut rydym yn creu modelau addysg mwy cynhwysol, a allai olygu parhau â dysgu ar-lein gartref, neu mewn grwpiau llai y tu allan i'r brif ysgol, fel rhan o ddull dysgu ar ei newydd wedd i'r dyfodol.

Mae'r arafu anorfod hwn a welsom mewn bywyd teuluol wedi esgor ar rai manteision gwerthfawr i rai teuluoedd. Cawsant gyfle i ddyfnhau eu perthnasoedd a gwella llesiant. Mae'n hysbys nad yw oriau gweithio hir ac afreolaidd yn ffafriol i fywyd teuluol iach. Gwyddom fod rhyw gymaint o werth, yn enwedig i rai plant mewn teuluoedd incwm isel, i ddefnyddio lleoliadau gofal plant. Fodd bynnag, o ran datblygiad plant, rydyn ni hefyd yn dysgu mwy am bwysigrwydd ymlyniadau iach â'r prif roddwyr gofal. Mae'n bosibl y bydd angen cael sgwrs am lesiant cenedlaethau'r dyfodol ar ôl y pandemig, rhywbeth na chaiff ei symbylu gan yr elfen economaidd, ond sgwrs am waith, bywyd teuluol a gofal plant.

Er gwaethaf y sylw a'r buddsoddiad a roddodd Llywodraeth Cymru i ddelio â chynhwysiant digidol yn hanesyddol, mae'r pandemig wedi datgelu bylchau mewn mynediad, a bydd hynny wedi bod yn effeithio ar deuluoedd dros amser. Yn union fel y mae addysg ddigidol ar fin bod yn rhan o'r cwricwlwm craidd yng Nghymru, mae'n ymddangos y dylai mynediad i'r digidol mewn cartrefi, fod cyfwerth â mynediad i gyfleustodau allweddol megis ynni a dŵr. Mae gofyn rhoi cryn fwy o sylw i anghydraddoldebau digidol i'r dyfodol.